Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018-2019

Gorffennaf 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cyllid**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018-2019

Gorffennaf 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 19 a 20 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O dan Reolau Sefydlog 19 ac 20, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Cynulliad yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith craffu ar gyllideb y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 18.10 ac 18.11, mae goruchwylio llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru a chynnydd yn hyn o beth, fel rhan o'i gyfrifoldebau.

Gall y Pwyllgor hefyd graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad.

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Simon Thomas AC**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Jane Hutt AC**
Llafur Cymru
Bro Morgannwg



**Steffan Lewis AC**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Nick Ramsay AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



**David Rees AC**
Llafur Cymru
Aberafan

# Cynnwys

**Casgliadau....................................................................................................5**

**1. Trosolwg......................................................................................................6**

**2. Cyfalaf trafodiadau ariannol ..........................................................9**

**3. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.......................................12**

**4. Trafnidiaeth a'r Economi ..............................................................17**

**5. Addysg ........................................................................................................ 22**

**6. Amrywiad i'r gyllideb ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru................................................................................ 24**

**Atodiad A: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Cyllideb Atodol 2018-19 Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ................................................................................ 25**

# Casgliadau

**Casgliad 1.** Nid yw'r newidiadau yn y gyllideb atodol hon yn sylweddol. Fodd bynnag, gwerthfawrogodd y Pwyllgor y cyfle i drafod y newidiadau ac mae'n credu y dylai'r arfer da hwn barhau. Mae'r Pwyllgor wedi nodi meysydd lle y byddai gwybodaeth ychwanegol yn ddefnyddiol ar adeg y gyllideb ddrafft. ........ Tudalen 7

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol a byddai'n croesawu ymchwiliad pellach i ddulliau arloesol a chreadigol o ddefnyddio'r arian hwn. ........ Tudalen 11

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod **cyfalaf trafodiadau ariannol** wrth drafod y gyllideb ddrafft yn yr hydref. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i fanylion am sut y caiff cyfalaf trafodiadau ariannol ei ddyrannu yn y cyllidebau amlinellol a manwl ac unrhyw ymrwymiadau ad-dalu fod yn rhan o grynodeb cyffredinol o restrau dyled ac ad-dalu Llywodraeth Cymru a ddarperir ar yr un pryd â'r gyllideb amlinellol. ........ Tudalen 11

**Casgliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod cyllid ar gyfer **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** wrth graffu ar y gyllideb ddrafft yn yr hydref, yn enwedig yn sgîl ei ymchwiliad i gost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio, ac yn gofyn i fanylion ychwanegol ar newidiadau eraill i'r dull ar gyfer dyrannu arian i gyrff y GIG gael eu rhoi bryd hynny. ........ Tudalen 16

**Casgliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod **cytundeb cyllidol y fasnachfraint rheilffyrdd** wrth drafod y gyllideb ddrafft yn yr hydref ac yn gofyn i'r manylion ychwanegol sydd ar gael ar sut y mae'r cytundeb hwn yn dylanwadu ar gyllideb 2019-20 a chyllidebau yn y dyfodol gael eu rhoi bryd hynny. ........ Tudalen 20

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod **datgarboneiddio** ac **effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** wrth drafod y gyllideb ddrafft yn yr hydref ac yn ei gwneud yn ofynnol, yn unol ag argymhellion blaenorol, i gyllidebau drafft ddangos sut y mae penderfyniadau'n gyson â nodau llesiant, yn bodloni blaenoriaethau Ffyniant i Bawb a datgarboneiddio hefyd. ........ Tudalen 21

**Casgliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd tymor hir **polisïau benthyciadau i fyfyrwyr** wrth drafod cyllideb ddrafft 2019-20 yn yr hydref ac yn gofyn i fanylion ychwanegol gael eu rhoi bryd hynny. ........ Tudalen 23

# 1. Trosolwg

**1.** Gosododd Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (Ysgrifennydd y Cabinet), Gyllideb Atodol gyntaf 2018-19[1] ar 19 Mehefin 2018. Yn ogystal, cyflwynwyd Nodyn Esboniadol[2] a thablau sy'n dangos y dyraniadau i'r prif grwpiau gwariant.

**2.** Mae proses y gyllideb yng Nghymru wedi'i nodi yn Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[3] ac yn Rheolau Sefydlog[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad). Dyma gamau'r broses:

- Cynigion y gyllideb ddrafft: mae'r rhain yn amlinellu cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru ac yn caniatáu i'r Cynulliad graffu arnynt a'u diwygio;
- Cynnig y gyllideb flynyddol: mae hwn yn ceisio awdurdodiad ffurfiol y Cynulliad ar gyfer defnyddio adnoddau yn ystod y flwyddyn ariannol, yn seiliedig ar y Gyllideb Derfynol; a
- Chynigion y gyllideb atodol: mae'r rhain yn ceisio awdurdodiad ar gyfer newidiadau yn ystod y flwyddyn i gynnig y gyllideb flynyddol. Fel arfer, ceir dwy gyllideb atodol bob blwyddyn ariannol, un ym mis Mehefin ac un ym mis Chwefror.

**3.** Mae'r gyllideb atodol hon yn diwygio Cyllideb Derfynol 2018-19. Mae dogfennaeth y gyllideb atodol yn dangos nad oes dim newidiadau i drethi na benthyciadau, a bod ad-daliadau benthyciadau wedi gostwng £0.5 miliwn i adlewyrchu'r lefelau benthyca is na'r disgwyl yn 2017-18.

**4.** Bu newidiadau sylweddol yn y dyraniadau adnoddau a chyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, prif grwpiau gwariant Economi a Thrafnidiaeth ac Addysg yn benodol. Mae dyraniadau adnoddau a chyfalaf wedi cynyddu £15 miliwn (1.0 y cant) a £134 miliwn (10.3 y cant) ers Cyllideb Derfynol 2018-19.

**5.** Mae llinell sylfaen arian refeniw wedi cael cynnydd net o £7.2 miliwn oherwydd trosglwyddo £7.2 miliwn gan y Swyddfa Gartref o ran y Gordal Iechyd Mewnfudo a throsglwyddo £15,000 allan i Swyddfa'r Cabinet ar gyfer cyfraniad Llywodraeth Cymru at ddigwyddiadau “Gwasanaeth Sifil yn Fyw” yn 2018.

[1] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19, Mehefin 2018

[2] Llywodraeth Cymru, Nodyn Esboniadol Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19, Mehefin 2018

[3] Deddf Llywodraeth Cymru 2006

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**6.** Mae'r llinell sylfaen gyfalaf draddodiadol wedi cynyddu £2.8 miliwn o ganlyniad i symiau canlyniadol sy'n deillio o gyllid ymchwil a datblygu gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn Natganiad Hydref y DU yn 2016.

**7.** Mae gwerth £910,000 o drosglwyddiadau refeniw rhwng portffolios Gweinidogol fel y'u nodir yn y Nodyn Esboniadol, sef:

- Trosglwyddwyd £800,000 o'r Llinell Wariant yng Nghyllideb Addysg a Hyfforddiant (prif grŵp gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i'r Llinell Wariant yng Nghyllideb Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr (prif grŵp gwariant Addysg) i ariannu Bwrsariaethau'r GIG dros dro oherwydd disodli bwrsariaeth grantiau â benthyciadau gan Lywodraeth y DU.
- Trosglwyddwyd £100,000 o'r Llinell Wariant yng Nghyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (prif grŵp gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i'r Llinell Wariant yng Nghyllideb Cydraddoldeb a Ffyniant (prif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddol) fel rhan o becyn cyllid 3 blynedd i Anabledd Cymru.
- Trosglwyddwyd £10,000 o'r Llinell Wariant yng Nghyllideb Ansawdd yr Amgylchedd Lleol a Cadwch Gymru'n Daclus (prif grŵp gwariant Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig) i'r Llinell Wariant yng Nghyllideb y Cynllun Cymorth Ariannol Brys (prif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus) fel rhan o becyn cymorth Marina Caergybi.

**8.** Mae Ffigur 1 yn dangos newid yn y gyllideb atodol gyntaf o gyllideb derfynol 2018-19.

**9.** Ymddangosodd Ysgrifennydd y Cabinet gerbron y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ar 27 Mehefin 2018.[5] Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau'r Pwyllgor, sy'n seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law.

## Safbwynt y Pwyllgor

**Casgliad 1.** Nid yw'r newidiadau yn y gyllideb atodol hon yn sylweddol. Fodd bynnag, gwerthfawrogodd y Pwyllgor y cyfle i drafod y newidiadau ac mae'n credu y dylai'r arfer da hwn barhau. Mae'r Pwyllgor wedi nodi meysydd lle y byddai gwybodaeth ychwanegol yn ddefnyddiol ar adeg y gyllideb ddrafft.

[5] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018

Mehefin 2018

# Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018-19

Prif ffigurau'r Gyllideb Atodol Gyntaf (CA), yn dangos y symudiadau ariannol o Gyllideb Derfynol (CD) 2018-19

| DEL Refeniw | + | DEL Cyfalaf | + | AME | = | TME |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £13,882m | | £1,774m | | £1,790m | | £17,446m |
| +£15m +0.1% | | +£166m +10.3% | | +£18m +1.0% | | +£199m +1.2% |

**Adrannol Terfyn Gwariant (DEL)**

Total = £15,656m +181m +1.2%

AME: Gwariant a Reolir yn Flynyddol | TME: Cyfanswm y Gwariant a Reolir | CA: Cyllideb Atodol Gyntaf | CD: Cyllideb Derfynol.

DEL yw'r rhan ddisgresiynol o'r gyllideb y caiff Llywodraeth Cymru ddewis sut i'w gwario; nid oes disgresiwn yn achos AME.

| | Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf* | Newid o CD i CA |
|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £7,679m | +£77m 1.0% |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus* | £4,329m | +£0.6m 0.0% |
| Addysg | £1,852m | +£43m 2.4% |
| Yr economi a thrafnidiaeth | £1,124m | +£56m 5.3% |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | £352m | +£5m 1.5% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddiaeth | £321m | -£0.3m -0.1% |

*Nid yw'n cynnwys £1 biliwn o incwm ardrethi annomestig.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu. Cewch yr union ffigurau yng Nghyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2018-19.

# 2. Cyfalaf trafodiadau ariannol

**10.** Ar ôl cyhoeddi Cyllideb Hydref y DU yn 2017, datganodd Llywodraeth y DU y byddai Cymru'n cael £650 miliwn ar ffurf cyfalaf trafodiadau ariannol sydd i'w ad-dalu.[6] Dim ond fel benthyciad i endid sector preifat neu fuddsoddiad ecwiti ynddo y gellir defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol.

**11.** Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor ym mis Ebrill 2018 i gadarnhau bod y Trysorlys wedi cytuno i gais Llywodraeth Cymru i gario ymlaen £90 miliwn o gyllid trafodiadau ariannol heb ei wario yng Nghyllideb Hydref y DU, yn ogystal â threfniadau cronfeydd wrth gefn Cymru.[7]

**12.** Mae'r gyllideb atodol hon yn dyrannu cyfanswm o £31.5 miliwn o gronfeydd wrth gefn y cyfalaf trafodiadau ariannol:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – **£1 miliwn** i gefnogi Canolfannau Arloesi Iechyd.
- Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus – **£0.5 miliwn** ar gyfer Undebau Credyd.
- Economi a Thrafnidiaeth – **£30 miliwn** ar gyfer datblygiadau trafnidiaeth ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd.

**13.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet na ddychwelwyd arian i'r Trysorlys, er nad yw'r union drefniadau ar gyfer cario cyfalaf trafodiadau traddodiadol ac ariannol ymlaen wedi'u cadarnhau eto.[8]

**14.** Pan holwyd am ddefnydd arloesol posibl o gyfalaf trafodiadau ariannol, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y canlynol:

> "the restrictions on the use of financial transaction capital do make it an unwieldy instrument. Nevertheless, we have continued to use significant sums of that sort of capital for housing purposes, for business support purposes and in the field of transport."[9]

[6] Llywodraeth Cymru, Mark Drakeford, yn ymateb i Gyllideb Hydref Llywodraeth y DU, 22 Tachwedd 2017

[7] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid - Trafodiadau Ariannol, 24 Ebrill 2018

[8] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 8

[9] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 11

**15.** Manylodd Ysgrifennydd y Cabinet ar feysydd lle defnyddiwyd cyfalaf trafodiadau ariannol:

> "…in this supplementary budget, you will see the first tranche of money that we are using for credit unions in Wales. It's a small amount of money, but it is very useful for them and for individual credit unions in the transition they're having to make in the rules that are newly being applied to them in terms of capital-to-loans ratios. It's probably the difference between them being able to carry on trading or not. And then we have the stalled sites fund … That's £30 million of financial transaction capital and £10 million of conventional capital. And that's to allow local authorities and others to bring sites that would otherwise not be marketable into a condition where they can be put to beneficial use."[10]

**16.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet am lefel y risg sy'n gysylltiedig â chyllid trafodiadau ariannol. Dywedodd y canlynol:

> "We want to use financial transaction capital in that more innovative way and that inevitably means that we will have some higher risk uses of that money, but it is built into it, given that it's an 80 per cent repayment and the flexibility over repayment periods … my view is that … we have to lean on the boundaries of financial transaction capital and be prepared to do things that we know have an element of risk in them, both to get the capital used, to get it used successfully, but also to live within the spirit of the scheme, which does have some appetite for risk built into it."[11]

## Safbwynt y Pwyllgor

**17.** Wrth graffu ar gyllideb ddrafft 2018-19, roedd y Pwyllgor yn pryderu am y materion sy'n gysylltiedig â'r cyfalaf trafodiadau ariannol sydd i'w ad-dalu, a sut y gallai cyfyngiadau o ran defnyddio'r cyllid hwn gyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i gael y gwerth gorau am arian wrth ddyrannu'r arian hwn.

**18.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sicrhau bod y mwyafrif o gyfalaf trafodiadau ariannol yn cael ei ddefnyddio ac, er bod rheolau'r Trysorlys ynghylch yr arian hwn yn gyfyngol, mae rhywfaint o dystiolaeth o ddefnyddiau arloesol.

[10] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 12

[11] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 15

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol a byddai'n croesawu ymchwiliad pellach i ddulliau arloesol a chreadigol o ddefnyddio'r arian hwn.

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod cyfalaf trafodiadau ariannol wrth drafod y gyllideb ddrafft yn yr hydref. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i fanylion am sut y caiff cyfalaf trafodiadau ariannol ei ddyrannu yn y cyllidebau amlinellol a manwl ac unrhyw ymrwymiadau ad-dalu fod yn rhan o grynodeb cyffredinol o restrau dyled ac ad-dalu Llywodraeth Cymru a ddarperir ar yr un pryd â'r gyllideb amlinellol.

# 3. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol


## 3. 1. Cyllid y GIG

**19.** Cyfrifon blynyddol 2017-18 cyrff y GIG yng Nghymru oedd yr ail i adrodd perfformiad yn erbyn y ddyletswydd ariannol statudol a gyflwynwyd yn sgîl Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014.[12] Newidiodd hyn y gofyniad i Fyrddau Iechyd Lleol (BILl) yng Nghymru, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt reoli eu hadnoddau o fewn terfynau cymeradwy dros gyfnodau treigl tair blynedd.

**20.** Mae cyfrifon blynyddol 2017-18, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 14 Mehefin 2018, yn dangos bod perfformiad BILlau yn y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2018 yn adlewyrchu'r hyn a gafwyd yn ystod y cyfnod tair blynedd cyntaf, gyda'r un BILlau naill ai'n bodloni neu ddim yn bodloni'r ddyletswydd ariannol statudol.

**21.** Mae'r sefyllfa gyfanredol ar gyfer pob BILl ar gyfer y cyfnod tair blynedd hyd at 2017-18 wedi gwaethygu gyda gorwariant net o £365 miliwn (o'i gymharu â £253 miliwn yn 2016-17).[13]

**22.** Mae ffigur 2 yn dangos y gorwariant/tanwariant terfynol ar gyfer pob BILl, dros y cyfnod tair blynedd hwn.




Ffigur 2: Ffynhonnell – Adroddiad Atebolrwydd 2017-18 a luniwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru

---

[12] Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014

[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Gwasanaeth Ymchwil, Gwirio cyflwr ariannol byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, 19 Mehefin 2018

**23.** Ar 14 Mehefin 2018, cyhoeddodd Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ddatganiad ysgrifenedig am berfformiad ariannol y GIG yn 2017-18. Nododd hyn fod swyddogion yn monitro'r dull o gyflawni'r camau a nodwyd yn yr adolygiadau llywodraethu ariannol annibynnol, a oedd wedi'u comisiynu gan Lywodraeth Cymru o ran pob BILl nad oedd wedi mantoli'r cyfrifon yn y cyfnod tair blynedd cyntaf.[14]

**24.** Nododd y datganiad ysgrifenedig hefyd fod £27 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i ddyfarnu i BILl Hywel Dda yn dilyn canfyddiadau adolygiad cwbl gynhwysfawr o'i sylfaen gostau. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr arian ychwanegol hwn "yn golygu y bydd y Bwrdd Iechyd ar sylfaen gyllido deg o gymharu â'r byrddau iechyd eraill wrth fynd ymlaen ac mae'n sail gadarn i'r Bwrdd ddatblygu a thrawsnewid gwasanaethau".[15]

**25.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr arian ychwanegol a ddyrannwyd i Fwrdd Hywel Dda eisoes yn y prif grŵp gwariant Iechyd.[16]

**26.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet a fyddai arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu i Fwrdd Hywel Dda yn y blynyddoedd i ddod. Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet mai nodau'r adolygiad cyllidebu cwbl gynhwysfawr oedd:

> "…to identify those pressures that are under the direct control of the health board and that they therefore have to be able to get a grip of, and those sums of money that are beyond their control. The £27 million is a reflection of the sums of money that the zero-based budgeting review concluded that were not amenable to actions by the health board itself. I think having recognised those, as we did previously in the case of Powys, we've continued to recognise those year after year, and my understanding is that's what the health Secretary intends to do in this case."[17]

## 3. 2. Trosglwyddiadau o fewn portffolio

**27.** Cafwyd nifer o drosglwyddiadau rhwng Llinellau Gwariant mewn Cyllideb yn y prif grŵp gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol "i gyd-fynd yn gywir â'r dyraniadau a wnaed i'r Byrddau Iechyd Lleol ac i ariannu ymrwymiadau

[14] Datganiad Ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Perfformiad Ariannol y GIG 2017-18, 14 Mehefin 2018

[15] Datganiad Ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Perfformiad Ariannol y GIG 2017-18, 14 Mehefin 2018

[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 18

[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 27

penodol".[18] Mae oddeutu £14 miliwn wedi'i drosglwyddo o Weithrediad Darparu Gwasanaethau Craidd y GIG a £4 miliwn o Weithrediad Darparu Gwasanaethau Penodol y GIG. Trosglwyddir yr arian hwn i Addysg a Hyfforddiant â Chymorth Gweithlu'r GIG.

**28.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y cynnydd a wneir i alluogi'r prif grŵp gwariant Iechyd i gael ei reoli heb arian ychwanegol yn galonogol,[19] ond ei fod yn parhau i fod yn agored i ddarparu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn os bydd y pwysau'n codi ym maes Iechyd.[20]

## 3. 3. Cronfeydd wrth gefn

**29.** Dyrannwyd £7.2 miliwn o'r gronfa arian wrth gefn i'r Llinell Wariant yng Nghyllideb Dyraniadau Craidd y GIG o ran y Gordal Iechyd Mewnfudo. Gwnaed dau ddyraniad o gronfeydd wrth gefn cyfalaf cyffredinol i'r prif grŵp gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

- £49.2 miliwn o gyllid ychwanegol i ddyraniadau'r Llinell Wariant yng Nghyllideb Graidd y GIG i'w ddyrannu ar draws ystod o flaenoriaethau clinigol megis Canolfan Ganser Felindre newydd a gwasanaethau newyddenedigol yn Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Singleton.
- £20 miliwn ychwanegol i'r Llinell Wariant yng Nghyllideb Dyraniadau Graidd y GIG ar gyfer rhaglen Iechyd Cymru Gyfan, gan gynnwys ambiwlansys a phrosiectau blaenoriaeth uchaf megis Cerbydau newydd i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Peiriant MRI i Ysbyty Bronglais, Theatr Hybrid i Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ac ati.[21]

**30.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet am y dyraniadau o gronfeydd wrth gefn, yn enwedig yr arian a ddyrannwyd ar gyfer blaenoriaethau clinigol a'r broses gynllunio. Dywedodd:

> "I think the capital planning system in the health service is quite robust already, and has been laid down over a number of years. So, it has a three-phase process. It begins with the health boards themselves and their production of the integrated medium-term plans. So, they look to see what their capital needs and their capital priorities are. Those are

[18] Nodyn Esboniadol Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018-19, Mehefin 2018

[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 20

[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 20

[21] Nodyn Esboniadol Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018-19, Mehefin 2018, paragraff 5.4

then reflected in the IMTPs [Integrated Medium Term Plans]. They come in to the Minister here. So, that's the first stage. Of course, remember that 25 per cent of all the capital in the health service is in the hands of the health boards themselves in discretionary capital, and we've increased the percentage of discretionary capital in recent years too. But 75 per cent is allocated by the Health Cabinet Secretary, and so when the bids come in from the health boards and trusts, the second phase is for him, with advice from the infrastructure investment board that he has, which has people from outside the Welsh Government on it—they prioritise within the capital programme budget that they have. If there are things that they cannot accommodate within the budget that they have, then you're into the third phase of it, where, alongside every other Cabinet Secretary, the Cabinet Secretary for health is able to put proposals to me for any additional capital that I'm able to make available. I set out criteria that cover the whole of the Government, and in this budget you can see that, of the additional capital that I was able to make available, nearly £50 million of that went to the health service. But it's that three-phase process that leads to the allocations you see in the supplementary budget."[22]

## Safbwynt y Pwyllgor

**31.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y portffolio Iechyd, ar hyn o bryd, yn cael ei reoli o fewn arian y prif grŵp gwariant, sy'n galonogol. Fodd bynnag, mae'n gynnar yn y flwyddyn ariannol ac mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod pwysau ar y portffolio Iechyd yn aml yn cynyddu yn ystod y gaeaf. Felly, bydd y Pwyllgor yn parhau i gadw llygad ar y prif grŵp gwariant Iechyd.

**32.** Mae'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon eisoes wedi trafod yr angen i ymchwilio i weld a yw elfennau o orwariant y BILl yn deillio o anghenion strwythurol parhaus nad ydynt wedi'u hadlewyrchu'n ddigonol mewn dyraniadau cyllid. Mae'n bleser gan y Pwyllgor weld bod Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r cyllid ar gyfer BILl Hywel Dda a bydd yn monitro sut y mae hyn yn helpu'r bwrdd iechyd i fantoli cyllidebau yn y dyfodol.

**33.** Er y cydnabyddir bod portffolio Iechyd, ar hyn o bryd, yn cael ei reoli o fewn y prif grŵp gwariant, mae'r Pwyllgor yn nodi bod cyfrifon diweddar 2017-18 yn dangos nad yw rhai BILlau yn cadw at eu dyraniadau cyllid cytûn o hyd. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn craffu ar gyfrifon BILlau

[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 29

ym mis Gorffennaf, a'i fod yn gobeithio gweld gwelliant yn y rheolaeth ariannol gan BILlau yn y dyfodol.

**Casgliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod cyllid ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth graffu ar y gyllideb ddrafft yn yr hydref, yn enwedig yn sgîl ei ymchwiliad i gost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio, ac yn gofyn i fanylion ychwanegol ar newidiadau eraill i'r dull ar gyfer dyrannu arian i gyrff y GIG gael eu rhoi bryd hynny.

# 4. Trafnidiaeth a'r Economi

## 4. 1. Cyllid rheilffyrdd

**34.** Mewn llythyr at Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ganlyniad trafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Drafnidiaeth o ran y trefniadau ariannol ynghylch y fasnachfraint rheilffyrdd nad oes penderfyniad wedi'i wneud yn eu cylch hyd yn hyn.[23]

**35.** Mae'r llythyr yn nodi mai'r taliad addasu tâl mynediad blaenorol rhwng Trenau Arriva Cymru a'r Adran Drafnidiaeth oedd £67.86 miliwn yn 2017-18, a rhagwelwyd y byddai'n cynyddu gyda chwyddiant. Dywedwyd y gallai hyn arwain at daliadau dros £1 biliwn gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU dros y 15 mlynedd nesaf.[24]

**36.** Mae'r llythyr yn nodi bod trefniant newydd bellach ar waith, “tebyg i'r trefniant rhwng gweithredwyr y masnachfreintiau a'r Adran Drafnidiaeth yn Lloegr, ond a fydd hefyd yn ystyried y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n cael ei hariannu”.[25]

**37.** Mae'r llythyr yn parhau:

> “Oherwydd natur gymhleth y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n cael ei hariannu am ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd, bydd cyfnod pontio i roi ystyriaeth i ragdybiaeth Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (2017-2020) y Trysorlys. Yn ôl y rhagdybiaeth honno, bydd y taliadau addasu'n parhau ar y lefel a ragwelir. Ar sail hynny, bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud dau daliad i'r Adran Drafnidiaeth - £24.8 miliwn yn 2018/19 a £71.8 miliwn yn 2019/20.”[26]

**38.** O ran y £24.8 miliwn a gaiff ei dalu i Lywodraeth y DU, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y taliadau mynediad rheilffyrdd yn gymhleth, ond dywedodd:

---

[23] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 1 Mehefin 2018

[24] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 1 Mehefin 2018

[25] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 1 Mehefin 2018

[26] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 1 Mehefin 2018

> "...I intend to assist the Cabinet Secretary for Economy and Transport with that £24.8 million this year, and I will find it from reserves. However, because there are final discussions going on between ourselves and the department, I haven't put it through in this first supplementary budget. I do intend to reflect it in the second supplementary budget later in the year."[27]

**39.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet sut y mae'r trefniadau cyllidol ar gyfer y fasnachfraint rheilffyrdd yn gysylltiedig â chytundebau cyllidol eraill rhwng Cymru a San Steffan. Cadarnhaodd fod ei swyddogion yn cymryd rhan mewn trafodaethau â'r Trysorlys a bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i gyhoeddi'r cytundeb gyda'r Adran Drafnidiaeth.[28]

## 4. 2. Newidiadau portffolio

**40.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1 miliwn o'r gronfa arian wrth gefn i'r Llinell Wariant yng Nghyllideb Adolygu Bysiau i gefnogi teithio am ddim ar fysiau a thros £25 miliwn o gyfalaf cyffredinol o'i chronfeydd wrth gefn. Mae'r dyraniadau'n cynnwys:

- £10 miliwn ar gyfer Teithio Cynaliadwy a; Llinell Wariant yng Nghyllideb Cerdded a Beicio i gyflymu'r gwaith o greu llwybrau teithio llesol er mwyn cysylltu ardaloedd preswyl â safleoedd a gwasanaethau cyflogaeth ac addysgol allweddol.
- £9 miliwn i'r Llinell Wariant yng Nghyllideb Gweithrediadau Seilwaith TGCh ar gyfer cam dau mynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf i gyflawni'r ymrwymiad yn Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb ar gyfer band eang cyflym dibynadwy i'r rhannau o Gymru nad yw'r farchnad yn eu gwasanaethu ar hyn o bryd.
- £5 miliwn i'r Llinell Wariant yng Nghyllideb Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch ar gyfer y Cymoedd Technoleg. Dyma ran o brosiect 10 mlynedd a gyhoeddwyd yn lle Cylchffordd Cymru yn ardal Glynebwy.
- £1.3 miliwn i'r Llinell Wariant yng Nghyllideb Cadw i gefnogi profiad i ymwelwyr.

**41.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet am y £25 miliwn sy'n cael ei drosglwyddo o'r cronfeydd wrth gefn i'r portffolio Economi a Thrafnidiaeth a sut

[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 34

[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 37

roedd gwariant yn cael ei flaenoriaethu. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y dyraniadau'n dod o adolygiad o gynllun buddsoddi seilwaith Cymru ac esboniodd y broses:

> "I wrote out to all my Cabinet colleagues asking them to re-examine their top capital priorities and to refresh the list that was already available to me to make sure that I had the best insight into the things that were most pressing for them. I then said in that letter that I would then prioritise the bids that came in against three key criteria."[29]

**42.** Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet ei feini prawf ar gyfer gwariant ychwanegol:

- roedd angen cysoni'r cynigion â "Ffyniant i Bawb",
- byddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi ar fuddsoddiadau a oedd yn arwain at arbedion refeniw, a
- byddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gynigion a oedd yn cyfrannu at agenda datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.[30]

**43.** O ran dyraniadau'r portffolio Economi a Thrafnidiaeth, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet eu bod yn gyson iawn â'r agenda datgarboneiddio a pharhaodd i roi manylion:

> "…the £10 million for active travel, which is, of course, £10 million this year, £20 million next year and £30 million the year after that—so, it is a rising profile—that is particularly to connect residential areas with key employment and educational sites, so that people are able to get from where they live to where they work or where they study without needing to take their car. That's a very big push for us, so I was very keen indeed to help with that and to invest in that…
>
> As far as the next generation broadband is concerned, which is the second one, again, if people can work from home and they can do more things without having to travel to meetings and so on, then there's a strong decarbonisation advantage there, as well as all the other things we know about how, in rural Wales particularly, businesses rely on a better service than they have had so far. And the Tech Valleys proposal is a focus on new low-carbon technologies to be developed at

[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 40

[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 41

> the Ebbw Vale site. So, the strong carbon reduction alignment is the thing that got those particular proposals over the line in competition with all the other thing that we could have spent the money on."[31]

**44.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yn debygol y byddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi ar ddatganboneiddio mewn cyllidebau yn y dyfodol. Dywedodd:

> "We gave a commitment last year that we would aim to align the carbon budgeting cycle with the budget cycle here, and a lot of work has gone on to do that, and I will be reporting on that, as will my colleague Lesley Griffiths, in the autumn, as to what we have done there. And in the approach that we are taking to the impact of the Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015 on our budget process for next year, we've agreed with the commissioner that decarbonisation will be one of the key themes that she will look at in the way that we make our spending decisions. So, I do expect to be able to report to you in the autumn further on the way that the decarbonisation agenda is making a difference to the way we allocate funding."[32]

## Safbwynt y Pwyllgor

**45.** Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y cytundeb cyllidol o ran y fasnachfraint rheilffyrdd ac mae'n arbennig o awyddus i ddeall sut y mae'r cytundebau cyllidol amrywiol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn rhyngweithio.

**46.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu esboniad Ysgrifennydd y Cabinet o ran sut y mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu cyllid cyfalaf, yn enwedig o ran yr ymrwymiad i gysylltu cyllidebau carbon â'r cylch cyllidebu. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd datgarboneiddio yn ffocws allweddol yng nghyllideb ddrafft 2019-20 o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Casgliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod **cytundeb cyllidol y fasnachfraint rheilffyrdd** wrth drafod y gyllideb ddrafft yn yr hydref ac yn gofyn i'r manylion ychwanegol sydd ar gael ar sut y mae'r cytundeb hwn yn dylanwadu ar gyllideb 2019-20 a chyllidebau yn y dyfodol gael eu rhoi bryd hynny.

---

[31] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraffau 42-43

[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 54

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod datgarboneiddio ac effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth drafod y gyllideb ddrafft yn yr hydref ac yn ei gwneud yn ofynnol, yn unol ag argymhellion blaenorol, i gyllidebau drafft ddangos sut y mae penderfyniadau'n gyson â nodau llesiant, yn bodloni blaenoriaethau Ffyniant i Bawb a datgarboneiddio hefyd.

# 5. Addysg

## 5. 1. Benthyciadau i fyfyrwyr

**47.** Mae'r newid mawr yn y portffolio Addysg yn ymwneud â benthyciadau i fyfyrwyr. Mae benthyciadau i fyfyrwyr yn rhan o'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Mae'r gyllideb atodol yn dangos bod elfen Gwariant a Reolir yn Flynyddol y gyllideb wedi cynyddu £22.5 miliwn: cynnydd mewn refeniw o £19.1 miliwn a chynnydd mewn cyfalaf o £3.4 miliwn.

**48.** Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Trysorlys EM yn cyflenwi'r cyllid ar gyfer y Llyfr Benthyciadau i Fyfyrwyr yng Nghymru a bod gwaith yn cael ei wneud ar lefel y DU o ran dosbarthu benthyciadau i fyfyrwyr.[33] Fodd bynnag, parhaodd Ysgrifennydd y Cabinet i esbonio:

> "We are less exposed in Wales, because we have a different student support system, which is more generous in terms of the grants we give, rather than the loans that have to be repaid. Nevertheless, we have to make an assessment of the cover we have to provide against non-repayment. … from memory, we make a 35 per cent provision against non-repayment; England's is hovering between 45 and 50 per cent. So, that is a very significant difference in the cover that is needed. So, we are in a healthier place, partly because of the structure of the system that we have."[34]

## Safbwynt y Pwyllgor

**49.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod mai galw sy'n arwain benthyciadau i fyfyrwyr a'i fod yn sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macro-economaidd eraill, sy'n golygu ei bod yn anodd rhagweld lefel y gwariant.

**50.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod y dull gweithredu a gymerir yng Nghymru wedi arwain at gyfraddau talu yn ôl gwell nag yn Lloegr.

**51.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Eurostat yn trafod y system ddosbarthu benthyciadau i fyfyrwyr. Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd i'r mater hwn pan gaiff newidiadau i system y DU eu trafod.

[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraffau 47 a 49

[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 27 Mehefin 2018, paragraff 50

**Casgliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd tymor hir polisïau benthyciadau i fyfyrwyr wrth drafod cyllideb ddrafft 2019-20 yn yr hydref ac yn gofyn i fanylion ychwanegol gael eu rhoi bryd hynny.

# 6. Amrywiad i'r gyllideb ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**52.** Yn unol â Rheol Sefydlog 20.36 (i)[35], cyflwynodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) femorandwm esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid ar 18 Ebrill 2018. Trafododd y Pwyllgor hyn yn ei gyfarfod ar 25 Ebrill 2018.

**53.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi manylion sy'n ymwneud â secondiad aelod o staff. Nid oes newid net ar adnoddau nac arian parod.

**54.** Mae copi o'r memorandwm esboniadol ar gael fel Atodiad A.

## Safbwynt y Pwyllgor

**55.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad i'r gyllideb ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

[35] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Atodiad A

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## Cyllideb Atodol 2018-19

## Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

### Cefndir

Cafodd cyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018-19 ei chynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cyflwynwyd ar y 19eg o Ragfyr 2017. Nodir mân newid arfaethedig i'r gyllideb honno isod.

### Incwm

Yn dilyn cytundeb i secondio aelod o staff i sefydliad arall, bydd incwm ychwanegol yn dod i law. Caiff hwn ei ddefnyddio i ôl-lenwi'r swydd. Nid oes unrhyw effaith net ar adnoddau nac arian parod.

| Cyllideb Atodol 2018-19 | Adnoddau | Arian parod |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 45 | 45 |
| | | |
| Incwm | -45 | -45 |
| | | |
| **Gofyniad adnoddau/arian parod net** | - | - |

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| Cyllideb Atodol 2018/19 | Cyllideb Atodol 2018/19 | Cyllideb Wreiddiol 2018/19 | Newid |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf** | 25 | 25 | 0 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw Ariannol** | | | |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 3,152 | 3,107 | 45 |
| Eiddo | 435 | 435 | 0 |
| Systemau cyfrifiadurol a chymorth | 225 | 225 | 0 |
| Costau swyddfa | 130 | 130 | 0 |
| Ffioedd cyfreithiol a chynghori | 300 | 300 | 0 |
| Cyfathrebu | 70 | 70 | 0 |
| Hyfforddiant a recriwtio | 55 | 55 | 0 |
| Teithio a chynhaliaeth | 40 | 40 | 0 |
| Ffi archwilio | 20 | 20 | 0 |
| **Is-gyfanswm** | **4,427** | **4,382** | **45** |
| Incwm | -62 | -17 | -45 |
| **Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw Ariannol** | **4,365** | **4,365** | **0** |
| **Terfyn Gwariant Adrannol heb fod yn arian parod** | | | |
| Dibrisiant | 70 | 70 | 0 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw** (B+C) | **4,435** | **4,435** | **0** |
| **Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol** (A+B+C) | **4,460** | **4,460** | **0** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | |
| Symudiad ar LGPS | 0 | 0 | 0 |
| Symudiad darpariaethau | 20 | 20 | 0 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **20** | **20** | **0** |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | | | |
| A+B+C+D | **4,480** | **4,480** | **0** |
| **Adnoddau Gofynnol** | **4,480** | **4,480** | **0** |
| Dibrisiant | -70 | -70 | 0 |
| Newid mewn Darpariaethau | -20 | -20 | 0 |
| Symudiadau eraill mewn Cyfalaf Gweithio | 20 | 20 | 0 |
| **Gofynion Arian Parod Net** | **4,410** | **4,410** | **0** |